# Kerbcraft

Kerbcraft is a national road safety scheme, funded by the Welsh Government and delivered by Carmarthenshire County Council. It aims to teach children from age 5-7 how to be safer pedestrians by taking them on the real roadside and showing them how correct decision-making and behaviour can really help them to stay safe.

It is a vital skill that if taught at this age will remain for life. Our aim is to reduce child pedestrian casualties.

**Practical Road-Side Training has proved to be the best way of helping young children to stay safe when near or crossing roads.**

The children are taken out of school by trained staff and volunteers, in groups of no more than three per adult to learn 3 main skills:

- **1. Choosing safe places to cross the road**
- **2. Crossing safely near parked cars**
- **3. Crossing safely near junctions**

Each skill is practiced at several different locations over a period of 10 weeks, in total 10 sessions are completed by the children, following this they receive their certificate.

## WE NEED VOLUNTEERS TO HELP US TEACH THESE CRITICAL SKILLS. CAN YOU HELP?

**Who can be a Volunteer?**

Mums, dads, grandparents, aunties, uncles, school governors and friends of the school.

**Can you, or anyone you know, spare 2-3 hours a week to be a KERBCRAFT Training Volunteer? You could be helping to save a life one day. The Kerbcraft co-ordinator will provide all volunteers with full training and support.**

**It's a very rewarding experience.**

To volunteer or to find to find out further information please contact our Kerbcraft co-ordinator:-

Alex McDowall: AJMcDowall@carmarthenshire.gov.uk Tel no. 01267 228289

If you are a parent, teacher or school governor and want to find out about starting Kerbcraft in your school, please contact the Kerbcraft co-ordinators.

# Kerbcraft

Cynllun diogelwch ffyrdd cenedlaethol yw Kerbcraft, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ei nod yw dysgu plant 5-7 oed i fod yn gerddwyr mwy diogel trwy fynd â nhw at ochr y ffordd a dangos iddynt sut y gall gwneud penderfyniadau cywir ac ymddwyn yn briodol eu helpu i aros yn ddiogel.




Mae'n sgil hanfodol, ac os caiff ei dysgu ar yr oedran ifanc hwn bydd yn aros gyda nhw am oes. Ein nod yw lleihau nifer y damweiniau sy'n digwydd i blant sy'n cerdded.

**Profwyd mai Hyfforddiant Ymarferol ar Ochr y Ffordd yw'r ffordd orau o helpu plant ifanc i aros yn ddiogel ger ffyrdd neu wrth groesi ffyrdd.**

Caiff y plant eu cymryd allan o'r ysgol gan staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig, mewn grwpiau heb fod yn fwy na thri i bob oedolyn, i ddysgu 3 phrif sgil:

- **1. Dewis mannau diogel i groesi'r ffordd**
- **2. Croesi'n ddiogel ger ceir sydd wedi'u parcio**
- **3. Croesi'n ddiogel ger cyffyrdd**

Caiff pob sgil ei hymarfer mewn sawl lleoliad gwahanol dros gyfnod o 10 wythnos; bydd y plant yn cwblhau cyfanswm o 10 sesiwn, ac yn dilyn hyn byddant yn derbyn eu tystysgrif.

## MAE ANGEN GWIRFODDOLWYR ARNOM I'N HELPU I DDYSGU'R SGILIAU HANFODOL HYN. ALLWCH CHI HELPU?

**Pwy all fod yn Wirfoddolwr?**

Mam, tad, mam-gu a thad-cu, modryb, ewythr, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol.

**Allwch chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod, roi 2-3 awr o'ch amser bob wythnos i fod yn Wirfoddolwr Hyfforddi KERBCRAFT? Gallech fod yn helpu i achub bywyd rhyw ddiwrnod. Bydd y Cydgysylltydd Kerbcraft yn darparu hyfforddiant llawn a chymorth i'r holl wirfoddolwyr.**

**Mae'n brofiad sy'n rhoi boddhad mawr.**

Os hoffech wirfoddoli, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag ein Gydgysylltwr Kerbcraft:-

Alex McDowall: AJMcDowall@sirgar.gov.uk Rhif ffôn 01267 228289

Os ydych yn rhiant, athro/athrawes neu lywodraethwr ysgol a'ch bod am wybod mwy am ddysgu Kerbcraft yn eich ysgol, cysylltwch â'r Cydgysylltwyr Kerbcraft.